*Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg* **Eitem Agenda 4**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r | **Awdurdod Tân** |
| Dyddiad | **18 Rhagfyr 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Anthony Jones, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Adolygiad Darpariaeth Brys** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1. I roi diweddariad i'r aelodau yn dilyn y nawfed Gweithgor Adolygiad Darpariaeth Brys (ECR) o dan arweiniad aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

2. I alluogi penderfyniad ynghylch model ymateb gweithredol diwygiedig ar gyfer Gogledd Cymru.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

3. Prif amcan yr ECR oedd ystyried y trefniadau presennol ac argymell opsiynau i ddarparu ymateb brys teg, cynaliadwy a chyfiawn ar draws Gogledd Cymru gyfan, gan gydbwyso'r galw a risgiau cymunedol presennol a dyfodol.

4. Er mwyn datblygu opsiynau i'r Awdurdod Tân eu mireinio ac ymgynghori â'r cyhoedd arnynt, ymgysylltwyd â ORH a darparodd fodelu annibynnol yn seiliedig ar dystiolaeth nifer o wahanol senarios ymateb gweithredol.

5. Mae ORH yn sefydliad sy'n arwain y sector i helpu gwasanaethau brys ledled y DU a ledled y byd i wneud y gorau o'u hadnoddau ac ymateb yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae ganddynt enw da fel arbenigwyr mewn datblygu modelau ymateb brys effeithiol.

6. Gan ystyried cyngor ORH, cynigiwyd tri opsiwn o ran sut y gellid darparu gwasanaethau brys yng Ngogledd Cymru ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

7. Ar ôl derbyn adborth mewn perthynas â'r ymgynghoriad ECR, gofynnodd yr Awdurdod Tân i'r Swyddogion beidio â gwneud unrhyw waith pellach ar ddau o'r tri opsiwn yr ymgynghorwyd arnynt, sef Opsiynauau 2 a 3, ond eu bod yn parhau i fireinio Opsiwn 1.

8. Yn y gweithgor ar 27 Tachwedd 2023, cyflwynodd y Gwasanaeth opsiwn wedi ei fireinio , y cyfeirir ato fel Opsiwn 1a.

9. Yn yr un gweithgor, cyflwynodd Undeb y Frigâd Dân (FBU) opsiwn yr oeddent yn cyfeirio ato fel Opsiwn 4, wedi'i ddiweddaru o fersiwn flaenorol o'r opsiwn hwn a gyflwynwyd i'r Aelodau ar 7 Tachwedd a nododd mai dyma oedd eu hopsiwn ddewisol ar gyfer ystyriaeth.

10. Yn dilyn y gweithgor hwn, paratôdd yr FBU set o ddogfennau cryno a'u rhannu â'r Aelodau.

11. Cyflwynodd y Gwasanaeth adroddiad adolygu yn seiliedig ar y trafodaethau a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd.

12. Cyflwynodd y Gwasanaeth hefyd Ddadansoddiad Effaith Cydraddoldeb ac Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb o ECR yr Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae'r adroddiadau hyn yn disgrifio'r effaith a'r camau lliniaru yn erbyn pob un o'r pryderon a godwyd ynghylch y tri opsiwn a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad, gan gynorthwyo Aelodau'r Awdurdod Tân i fodloni eu Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus fel y'i diffinnir gan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

13. Daeth gofynion y broses sicrhau ansawdd ffurfiol a oruchwyliwyd gan y Sefydliad Ymgynghori i ben wrth gwblhau'r dogfennau hyn. Mae'r Awdurdod wedi'i gydnabod fel un sydd wedi cyflawni 'Arfer Da' ar gyfer pob elfen o'r ymgynghoriad.

14. Cadarnhaodd hyn fod y broses ymgynghori wedi bodloni'r 'Egwyddorion Gunning', y sylfaen gyfreithiol gydnabyddedig ar gyfer asesu cyfreithlondeb ymgynghoriadau cyhoeddus.

15. Y pedair 'Egwyddor Gunning' yw:-
    - Bod y cynigion ar gam ffurfiannol
    - Bod yna ddigon o wybodaeth i roi ystyriaeth ddeallus
    - Bod yna ddigon o amser i ystyried ac ymateb
    - Rhaid rhoi ystyriaeth gydwybodol i'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyn gwneud penderfyniad.

16. Os na fydd yr 'Egwyddorion Gunning' wedi'u dilyn, mae'n bosibl y bydd penderfyniad yr Awdurdod yn destun adolygiad barnwrol.

17. Cyfarfu'r Gweithgor a Arweinir gan Aelodau ac a estynnwyd i'r Awdurdod Tân Llawn, eto ar 4 Rhagfyr 2023. I ddechrau, cyflwynwyd canlyniadau'r Gweithgor Craffu'r Gyllideb a arweinir gan Aelodau a'u trafod ymhlith y grŵp.

18. Cafwyd cadarnhad y gallai Opsiwn 1, y fersiwn wedi'i mireinio y cyfeirir ato fel opsiwn 1a a'r opsiwn FBU y cyfeirir ato fel Opsiwn 4 i gyd gael eu cyflawni o fewn yr un amlen gost neu un debyg iawn, er bod lefelau gwahanol o yswiriant gweithredol a gwydnwch gweithredol gyda pob opsiwn.

19. Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa gan y Prif Swyddog Tân a'r Swyddogion am y rheswm pam y cychwynnwyd yr ECR yn wreiddiol, er mwyn mynd i'r afael â'r heriau o ran argaeledd 'ar alwad' mewn lleoliadau gwledig, er mwyn darparu lefel mwy teg a chyfiawn o ymateb gweithredol ar draws y rhanbarth; i sicrhau bod gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru'r adnoddau sydd ar gael yn y lle iawn, ar yr amser iawn, gyda'r sgiliau iawn.

20. Yn dilyn asesiad o Opsiwn 4 yr FBU yn erbyn Meini Prawf Gwerthuso ECR, gan ddefnyddio dadansoddiad gan ORH, nododd swyddogion eu bod yn teimlo nad oedd yn bodloni nodau'r ECR. Daeth eu hadolygiad i'r casgliad nad oedd yn darparu gwasanaeth brys gwydn ac nad oedd yn darparu gwasanaeth teg a chyfiawn i gymunedau ar draws Gogledd Cymru gyfan.

21. Ymhellach at hynny, nododd Swyddogion bot y dadansoddiad yn dangos ei bod yn cynnig lefel waeth o ddarpariaeth frys nag Opsiwn 1 a 2 a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus a llai o hyblygrwydd na'r model ymateb presennol sydd eisoes yn ei le. Gwrthodwyd y model presennol gan yr Aelodau yn eu gweithgor ar 4 Ebrill 2023 a chadarnhawyd y penderfyniad hwn yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ar 17 Gorffennaf 2023.

22. Trafodwyd Dewisiadau 1, 1a a 4 a chynghorodd y Swyddogion yr Aelodau pe byddent yn penderfynu bwrw ymlaen â'r FBU Opsiwn 4 ymhellach y byddai risg o adolygiad barnwrol i'r Awdurdod. Nid ymgynghorwyd ar yr opsiwn a thybiwyd ei fod yn sylweddol wahanol i'r opsiynau a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad. Dywedodd swyddogion hefyd y byddai penderfyniad i weithredu Opsiwn 4 yn groes i'r Egwyddorion Gunning, gan y bu methiant i ddarparu digon o wybodaeth i'r cyhoedd i ganiatáu ar gyfer sylwadau ystyrlon.

23. Gofynnwyd i Swyddogion geisio cyngor cyfreithiol ynghylch y sefyllfa o ran symud ymlaen ag Opsiwn 4 yr FBU.

Amlygodd cyngor cyfreithiol pe bai Opsiwn 4 yn cael ei weithredu, byddai'r Awdurdod Tân yn gwneud penderfyniad nad oedd yn cael ei gefnogi gan farn y cyhoedd ac a oedd yn groes i gyngor proffesiynol. Byddai risg sylweddol o hawliad am adolygiad barnwrol ar y seiliau canlynol:

- Ni chodwyd Opsiwn 4 yn ei ddyluniad presennol yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus ac nid oedd y cyhoedd yn gallu ei ystyried a gwneud sylwadau arno;
- Mae Swyddogion o'r farn ei fod yn sylweddol wahanol i'r opsiynau yr ymgynghorwyd arnynt ac felly byddai tegwch yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gynnal ymgynghoriad pellach cyn mabwysiadu Opsiwn 4;
- Gan fod Swyddogion wedi nodi nad yw Opsiwn 4 yn bodloni amcanion yr ECR ac y byddai'n darparu lefel waeth o ddaroariaeth frys nag opsiynau eraill a gyflwynwyd i'r cyhoedd, byddai penderfyniad gan yr Awdurdod i fabwysiadu Opsiwn 4 yn benderfyniad a fyddai'n golygu gallai'r llys ystyried ei fod yn afresymol, ac felly'n anghyfreithlon;
- Gall penderfyniad i fabwysiadu Opsiwn 4 hefyd fod yn groes i ddyletswyddau'r Awdurdod o dan ran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 oherwydd efallai na fydd yn sicrhau bod y personél, y gwasanaethau a'r offer yn cael eu darparu i fodloni'r holl ofynion arferol yn effeithlon mewn perthynas â ymladd tân, damweiniau traffig ffyrdd ac argyfyngau; a
- Nid yw Opsiwn 4 wedi bod yn destun asesiad effaith cydraddoldeb ac felly mae'n bosibl na fydd yr Awdurdod yn gallu dangos ei fod wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau cydraddoldeb os bydd yn penderfynu mabwysiadu Opsiwn 4.

24. Amlygodd cyngor cyfreithiol hefyd y canlynol:

- Byddai Opsiwn 4 yn lleihau lefelau y ddarpariaeth frys o gymharu â'r model gweithredu presennol, a
- Byddai cynnal ymgynghoriad ar opsiwn nad yw'n cael ei ystyried yn ddichonadwy ar sail y meini prawf gwerthuso yn groes i'r Egwyddorion Gunning, a
- Byddai mabwysiadu Opsiwn 4 felly'n tanseilio amcan yr adolygiad o'r ddarpariaeth frys, a
- Byddai mabwysiadu opsiwn sy'n tanseilio amcan yr adolygiad o'r gwasanaeth brys yn creu risg gyfreithiol sylweddol i'r Awdurdod.

25. Gwnaeth Adolygiad Thematig Ehangu'r Rôl y Prif Gynghorydd Tân ac Achub Cymru nifer o argymhellion ynghylch rhyddhau capasiti, nid yn unig i gefnogi gweithgareddau sy'n ymwneud ag iechyd, ond hefyd i gynyddu hyfforddiant, ymarfer corff a gwaith lleihau risg a wneir gan ddiffoddwyr tân.

26. Ni fyddai unrhyw un o'r opsiynau ac eithrio Opsiwn 1 neu 1a yn mynd i'r afael â'r argymhellion hyn. Mae'r Dirprwy Weinidog dros Bartneriaeth Gymdeithasol wedi bod yn glir iawn bod Llywodraeth Cymru yn disgwyl i holl argymhellion yr Adolygiad Thematig gael sylw llawn.

**ARGYMHELLIAD**

27. Bod aelodau;

i) Yn nodi'r cyngor cyfreithiol nad oes modd argymell Opsiwn 4 yr FBU gan buasai ei fabwysiadu yn arwain at fodel gweithredu sy'n waeth na'r un presennol ac yn waeth nag Opsiwn 1 ac 1a. Gallai gwneud hynny olygu bod yr Awdurdod yn agored i'r risg o her gyfreithiol;
ii) Bod Aelodau'n gwrthod Opsiwn 2 yn swyddogol;
iii) Bod Aelodau'n gwrthod Opsiwn 3 yn swyddogol; a
iv) Bod yr Aelodau'n cytuno i weithredu amrywiad gwell o Opsiwn 1, hynny yw Opsiwn 1a.

**CEFNDIR**

28. Yn y cyfarfod ar 17 Gorffennaf 2023, cytunodd yr Awdurdod i ddechrau ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 21 Gorffennaf a 22 Medi 2023, a estynnwyd yn ddiweddarach i 30 Medi, ar dri opsiwn, ar ôl diystyru opsiynau ar gyfer twf a'r opsiwn i barhau â'r model ymateb presennol.

29. Ar ddiwedd yr ymgynghoriad ar 30 Medi 2023, cafwyd 1500 o ymatebion drwy'r holiadur ar-lein a derbyniwyd 226 o holiaduron papur gan y cyhoedd. Roedd cyfanswm o 17 o ddigwyddiadau ymgysylltu cymunedol wedi'u cynnal ar draws y rhanbarth yn ogystal ag 17 o gyfarfodydd gyda grwpiau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Yn ogystal, ymgysylltwyd hefyd â Chynghorwyr Gogledd Cymru, Prif Weithredwyr, Aelodau'r Senedd ac Aelodau Seneddol.

30. Cyflwynwyd hefyd raglen gynhwysfawr o ymweliadau ymgysylltu â staff â gorsafoedd tân ac adrannau mewn lleoliadau ar draws Gogledd Cymru gyfan.

31. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad, a ddehonglwyd yn annibynnol, yn dangos yn glir fod Opsiwn 2 yn cael ei wrthod (63% yn anghytuno) ac hefyd Opsiwn 3 (93% yn anghytuno). Roedd yr ymatebion yn dangos barn gyhoeddus glir mai Opsiwn 1 oedd yr opsiwn a ffefrir (68% yn cytuno).

32. Yn dilyn trafodaeth ac yn seiliedig ar y gwrthodiad clir gan y cyhoedd, yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ar 16 Hydref 2023 gofynnwyd i Swyddogion barhau i fireinio Opsiwn 1 a rhoi'r gorau i weithio ar Opsiynau 2 a 3.

33. Yn y gweithgor arweiniwyd gan Aelodau a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2023, cyflwynwyd amrywiad wedi'i fireinio a'i wella o Opsiwn 1, y cyfeirir ato fel Opsiwn 1a.

34. Cyflwynwyd Opsiwn 1a fel a ganlyn:
    - Y Rhyl a Glannau Dyfrdwy yn newid i Griwio Dydd (dim newid o Opsiwn 1).
    - Tîm System Dyletswydd Amser Llawn Wledig (WDS) yn cael ei hadleoli (dim newid o Opsiwn 1).
    - Bydd gan orsafoedd tân Porthmadog a Dolgellau System Dyletswydd Sifftiau Dydd 12 awr o ddwy wylfa, 14 aelod o staff, yn gweithredu 7 diwrnod yr wythnos (dim newid o Opsiwn 1).
    - Byddai ail injan dân amser llawn Wrecsam yn parhau i ddarparu cefnogaeth i ardal de Sir Ddinbych yn ôl yr angen, yn yr un modd ag y maent ar hyn o bryd (gwahanol i Opsiwn 1, ond yr un fath â'r defnydd presennol). Mae'r FBU hefyd wedi cynnig hyn o fewn eu hopsiynau i'r Awdurdod.
    - Creu gorsaf staffio dydd ychwanegol yn Llangefni (yn wahanol i Opsiwn 1 ond yn defnyddio'r holl staff presennol i ddarparu model gwell yn y lleoliad strategol blaenoriaeth nesaf, wedi'i ategu gan sylfaen dystiolaeth modelu gan gwmni annibynnol ORH).

35. Mae Clerc yr Awdurdod wedi dweud nad yw parhau â'r model gweithredu presennol yn briodol, gan fod yr heriau dyddiol i gyflawni lefel addas o gyflenwi gweithredol yn hysbys i'r Awdurdod ac y byddai methu â gweithredu i fynd i'r afael â'r broblem hon yn esgeulus.

36. Cyfarfu Swyddogion â chynrychiolwyr o'r undeb FBU ar 16 Tachwedd 2023 i geisio cyfaddawd a chydnabod meysydd o dir cyffredin.

37. Rhoddwyd mynediad i'r FBU i'r holl ddata a gyflwynwyd trwy gydol yr adolygiad o'rddarpariaeth frys. Arweiniodd hyn at ddrafftio Cytundeb Cydfargeinio gan Swyddogion a'i rannu â'r Undeb, gyda'r ddealltwriaeth y byddai'r sefyllfa gyfaddawdol hon yn cael ei rhoi i aelodaeth yr FBU.

38. Penderfynodd pwyllgor yr FBU yn hytrach na'r aelodaeth lawn nad oedd y cynnwys yn dderbyniol a gwrthododd y cyfaddawd, gyda chais am i fersiwn ddiwygiedig o'u Opsiwn 4 gael ei symud ymlaen fel eu dewis opsiwn i'w ystyried.

39. Cyfarfu'r gweithgor arweinir gan Aelodau eto ar 27 Tachwedd 2023 gyda Swyddogion yn cyflwyno gwybodaeth a oedd yn disgrifio'r gwelliannau a gynigir gan Opsiwn 1a o gymharu ag Opsiwn 1.

40. Roedd y gwelliannau hyn drwy leoli peiriant tân ychwanegol â staff dydd yn Llangefni, Ynys Môn yn cynnwys:
    - nifer uwch o aelwydydd y gellid eu cyrraedd o fewn yr uchafswm amser ymateb o 20 munud - 5265 o aelwydydd o gymharu â 2148;
    - mwy o wydnwch yn ystod y dydd ar Ynys Môn wrth ystyried risgiau presennol ac yn y dyfodol;
    - nifer uwch o gartrefi a fyddai'n derbyn ymyriadau atal Diogel ac Iach, yn benodol ar Ynys Môn;
    - gwell rhyngweithio gyda busnesau lleol i gasglu gwybodaeth risg ar Ynys Môn, a;
    - mwy o gyfleoedd i ychwanegu gwerth cymdeithasol trwy gyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol mewn nifer ehangach o leoliadau yng Ngogledd Cymru.

41. Yng nghyfarfod y Gweithgor ar 27 Tachwedd 2023, cyflwynodd yr FBU ddau opsiwn yr oeddent yn cyfeirio atynt fel Opsiynau 4 a 5, gyda'r ddau yn rhagdybio nad oedd unrhyw newidiadau i'r modelau staffio yn Y Rhyl na Glannau Dyfrdwy.

42. Gofynnodd yr Awdurdod i'r FBU benderfynu ar yr opsiwn a ffefrir ganddynt a bod Swyddogion yn ystyried hyn yn erbyn y meini prawf gwerthuso a ddefnyddiwyd drwy gydol yr ECR.

43. Gofynnodd yr FBU am i Opsiwn 4 gael ei gyflwyno fel yr opsiwn a ffefrir ganddynt ac roedd hyn fel a ganlyn;
    - Dim newid i'r Rhyl a Glannau Dyfrdwy.
    - Tîm WDS Wledig yn cael eu hadleoli.
    - Bydd ail injan dân amser cyflawn Wrecsam yn darparu cefnogaeth i dde Sir Ddinbych yn ystod oriau'r system ddyletswydd bresennol sy'n gweithredu Gorsaf Dân Wrecsam, yn ôl yr angen. Os nad oes angen bydd yn aros yn Wrecsam.
    - 14 o staff WDS wedi eu rhannu ar draws Dolgellau a Phorthmadog ar batrwm pedwar diwrnod ymlaen a phedwar diwrnod i ffwrdd, un orsaf wedi ei staffio ar unrhyw un adeg.

44. Yng nghyfarfod y gweithgor ar 4 Rhagfyr, darparodd Swyddogion eu hasesiad proffesiynol o Opsiwn 4 yr FBU o gymharu ag Opsiwn 1 ac 1a, wedi'i ategu gan ddadansoddiad ORH.

45. Dywedwyd y byddai unrhyw opsiwn nad yw'n gwneud newidiadau i fodelau staffio yn Y Rhyl neu Lannau Dyfrdwy naill ai'n llai effeithlon neu angen cyllid ychwanegol nag Opsiynau 1 neu 1a.

46. Yna rhoddwyd disgrifiad o gyfyngiadau'r model sy'n cael ei gyflwyno gan yr FBU, yn ogystal ag esboniad o darddiad y model gan wasanaeth tân ac achub cyfagos gyda set wahanol iawn o amgylchiadau i gyd-destun Gogledd Cymru.

47. Mae Swyddogion wedi tynnu sylw at y ffaith y byddai gweithredu Opsiwn 4 mewn gwirionedd yn rhoi'r Gwasanaeth mewn sefyllfa waeth nag y mae ar hyn o bryd, gan na fyddai'n creu unrhyw gapasiti ychwanegol yn ystod y dydd ac y byddai'n fwy cyfyngol drwy osod holl ddiffoddwyr tân gwledig WDS mewn un lleoliad hanner cant y cant o'r amser ac i'r gwrthwyneb, heb y budd o ddwy orsaf ychwanegol fel y buasai'n cael ei gyflawni yn Opsiwn 1a.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Rhaid i'r ymgynghoriad fodloni rhwymedigaethau'r Awdurdod o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| Cyllideb | Mae goblygiadau cyllideb yr ymgynghoriad wedi'u cyhoeddi yng nghwestiynau cyffredin yr ymgynghoriad ac wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor Cyllideb, Monitro a Chaffael. |
| Cyfreithiol | Mae ein deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ymgynghori â'r cyhoedd ar newidiadau i'n darpariaeth gofal brys. Mae'r ymgynghoriad ECR a'r arferion gorau y mae'r Gwasanaethau wedi'u dilyn wedi cael Sicrwydd Ansawdd yn dilyn craffu gan y Sefydliad Ymgynghori.<br>Gall penderfyniadau gan awdurdodau cyhoeddus sy'n ymddangos yn groes i'w bwriadau datganedig a/neu eu dyletswyddau cyfreithiol gael eu dynodi'n "afresymol" gan y llysoedd a gellir eu dileu os cânt eu herio mewn Adolygiad Barnwol |
| Staffio | Mae'r Gwasanaeth wedi cynnal ymgynghoriad uniongyrchol helaeth gyda staff a'u cyrff cynrychioliadol yn ystod rhag-ymgynghoriad ac ymgynghoriad cyhoeddus llawn. Fodd bynnag, wrth benderfynu ar opsiynau i ymgynghori â nhw, bydd y newidiadau arfaethedig o fewn yr opsiynau yn effeithio ar staff |
| Cydraddoldeb / Hawliau Dynol / Iaith Gymraeg | Mae cynnal rhag-ymgynghori ac ymgynghori llawn wedi galluogi'r Awdurdod i gasglu adborth gan randdeiliaid a chasglu barn ar y tri opsiwn i lywio'r Dadansoddiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA). Mae'r EIA ac EqIA yn rhan hanfodol o'r broses o wneud penderfyniadau sy'n rhoi sicrwydd cydraddoldeb i'r Aelodau yn erbyn y tri opsiwn a gyflwynwyd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 17 Gorffennaf a 30 Medi 2023.<br>Cymeradwyodd y Sefydliad Ymgynghori y ddwy ddogfen a rhoddodd Sicrwydd Cydraddoldeb ar 28 Tachwedd 2023. Ni chafwyd Sicrwydd Cydraddoldeb mewn perthynas ag Opsiwn 4. |
| Risgiau | Mae'r ECR a'i ymgynghoriad yn lleihau'r risgiau o beidio â gallu gosod cyllideb gytbwys ac ymateb i argyfyngau yn effeithiol ac yn effeithlon yng nghymunedau Gogledd Cymru |